OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 885 (Cy.100)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Buddsoddiadau a Gymeradwywyd) (Diwygio) (Cymru) 2002

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *26 Mawrth 2002* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ebrill 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwer a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 58(9) a 66(1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**1**) ac sydd wedi'i freinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**):

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Buddsoddiadau a Gymeradwywyd) (Diwygio) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

### Diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Buddsoddiadau a Gymeradwywyd) 1990

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Buddsoddiadau a Gymeradwywyd) 1990 (**3**) yn cael eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(2) (dehongli), ar ôl y diffiniad o "gilt-edged securities", mewnosodwch y diffiniadau canlynol—

""highest possible credit rating" means, in relation to a money market fund, that it has the highest possible rating—

(a) in respect of creditworthiness assigned by Standard and Poor's, a division of The McGraw-Hill Companies Ltd(**4**); or

(b) in respect of both creditworthiness and volatility assigned by either Moody's Investors Service Ltd(**5**) or Fitch Ratings Ltd(**6**);

(**1**) 1989 p.42.
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1990/426; offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1991/501 ac O.S. 2001/3731 (Cy.308).
(**4**) Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr rhif 01916239.
(**5**) Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr rhif 01950192.

"money market fund" means a collective investment scheme which—

(a) in accordance with the Council Directive of 20th December 1985 on the co-ordination of laws, regulations and administrative provisions relating to undertakings for collective investments in transferable securities as amended (**7**), is an undertaking for collective investment in transferable securities subject to that Directive;

(b) has been given the highest possible credit rating; and

(c) is either a unit trust scheme authorised under section 243 of the Financial Services and Markets Act 2000(**8**) or a collective investment scheme recognised under section 264 of that Act;".

(3) Yn rheoliad 2(1) (buddsoddiadau a gymeradwywyd)—

(a) yn is-baragraff (b), ar ôl "deposit-taker", ychwanegwch ", the Treasury"; a

(b) ar ôl is-baragraff (b), mewnosodwch yr is-baragraff canlynol—

"(bb) any investment in a money market fund;";

(4) Yn rheoliad 3 (amodau ar gyfer cymeradwyo buddsoddiadau), ym mharagraffau (1)(c) a (4)(a), ar ôl "regulation 2" mewnosodwch "(1)".

### Diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) 1997

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) 1997 (**9**) yn cael eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 62(b) (gwaredu buddsoddiadau),—

(a) yn lle "2(b) or (c)", rhowch "2(1)(b), (bb) or (c)";

(b) yn is-baragraff (i), yn lle "institution" ym mha le bynnag yr ymddengys, rhowch "deposit-taker";

(c) yn is-baragraff (ii),—

(i) ar ôl "2", mewnosodwch "(1)"; a

(ii) ar y diwedd, ychwanegwch "; or"; ac

(ch) ar ôl is-baragraff (ii), ychwanegwch—

"(iii) where the investment was made with a money market fund, that fund has ceased to be a money market fund within the meaning given to that expression in regulation 1(2) of the 1990 Regulations.".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**10**)

*Rhodri Morgan*
Prif Weinidog y Cynulliad Cenedlaethol

26 Mawrth 2002

(**6**) Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr rhif 01316230.
(**7**) 85/611/EEC (OJNL375, 31.12.1985) a ddiwygiwyd gan 88/220/EEC (OJNL100, 19.4.1988) a 95/26/EC (OJNL168, 18.7.1995).
(**8**) 2000 p.8.
(**9**) O.S. 1997/319 a ddiwygiwyd ond nid yw'r diwygiadau yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**10**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Buddsoddiadau a Gymeradwywyd) 1990 yn cynnwys rhestr o fuddsoddiadau a gymeradwywyd at ddibenion Rhan IV o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1990 drwy ychwanegu buddsoddiadau mewn cronfeydd marchnadoedd arian ac adneuon yn y Trysorlys at y rhestr o fuddsoddiadau a gymeradwywyd.

Hefyd, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) 1997.